**HYSBYSIAD A GORCHYMYN GWARCHOD RHAG CAM-DRIN DOMESTIG (DAPN/DAPO) – MAP PROSES**

*Sylwch mai bwriad y map proses hwn yw bod yn drosolwg lefel-uchel o'r broses DAPN/DAPO. Dylai hyn gael ei ystyried a'i adolygu ar y cyd â'r Canllaw statudol llawn.*

**Cam-drin domestig yn cael ei nodi gan yr heddlu:**
Troseddwr (T) 18 oed neu'n hŷn
Dioddefwr (D) yn 16 oed neu'n hŷn

(T) yn gam-driniol neu'n fygythiol tuag at rywun sydd "â chysylltiad personol"

**Ymwneud yr heddlu:**
Yr heddlu'n bresennol ac yn arestio T. Cwblhau asesiad risg gyda D. Ystyriaeth gynnar i addasrwydd DAPN. Casglu tystiolaeth.

**WASTAD yn ystyried nodi ac erlyn am droseddau gwirioneddol.**

**Ymgynghori a cheisio awdurdod am DAPN gan gwnstabl sydd â rheng arolygydd o leiaf, a hynny'n gynnar.**

Rhaid cyfiawnhau fod DAPN yn gymesur ac angenrheidiol i warchod yr unigolyn rhag camdriniaeth neu fygythiad o gamdriniaeth gan T. Ystyried hawliau dynol y D a'r T, a barn D.
Ni ellir cadw T yn y ddalfa at ddibenion cyflwyno DAPN.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • DGP ar yr achos<br>• Rhybuddio T<br>• T ar fechnïaeth gydag amodau heb roi | Oes | **A oes angen DAPN?** | Na | • Erlyn am drosedd(au) gwirioneddol<br>• Amodau mechnïaeth sy'n gwarchod D |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gwarchodaeth ddigonol i D | | | | • Ystyried DAPO arunig i warchod D |

.

**Cyhoeddi DAPN**
Awdurdodwyd gan uwch-swyddog heddlu (rheng Arolygydd o leiaf) a'i roi i T yn ysgrifenedig gan gwnstabl yn bersonol.

**Ystyriaethau** – lles unrhyw un dan 18, barn pawb dan sylw, sylwadau gan T, NID oes angen cydsyniad D.

**Amodau** –peidio ag ymyrryd. Gall ymyrryd gynnwys mynd yn agos neu i mewn i eiddo D, hyd yn oed mewn achosion lle nad yw T a D yn cyd-fyw.

**Hysbysiadau –** yn ysgrifenedig ac yn bersonol, seiliau cyhoeddi. Cyfrifoldeb T am gydymffurfio ag amodau, pwerau arestio am dorri, clywir cais am DAPO ymhen 48 awr.

**Rhybudd o Wrandawiad** – Wedi i DAPN gael ei roi, rhaid i heddwas ofyn am

gyfeiriad i (T) i gyflwyno Rhybudd o Wrandawiad o gais am DAPO. Caiff y Rhybudd o Wrandawiad hwn dan Adran 27 (5) ei drin fel gwŷs. Rhaid rhoi hwn
i T ym mhob achos ac y mae ar wahân i'r DAPN. **Swyddog yn hysbysu'r Adrannau a'r Asiantaethau perthnasol fod DAPN wedi ei roi.**

**Torri DAPN**

**Angen gweithredu BRYS – ystyriwch nodi ac erlyn am droseddau gwirioneddol.**

Hysbysu D am y torri
Hysbysu'r asiantaethau perthnasol am y torri
Gall swyddog arestio
Cadw yn y ddalfa
Llys ymhen 24 awr neu os yn gynt, gwrando ar y cais.
Casglu tystiolaeth/paratoi papurau llys.

**<u>Amserlen – uchafswm o 48 awr</u>**
Gwrandewir ar gais am DAPO ymhen 48 awr o amser rhoi'r DAPN.

| **Cais am DAPO yn dilyn DAPN** | **Cais am DAPO arunig** | **Cais am DAPO mewn achosion llys troseddol sy'n dal ymlaen:** |
|---|---|---|
| Rhaid gwneud cais trwy gŵyn. Y DAPN yw'r gŵyn. Rhaid ei gyflwyno i'r llys ynadon a heb fod yn hwyrach na 48 awr wedi | Gellir gwneud cais amdano gyda phenderfyniad i gyhuddo os oes angen gwarchod D rhag T yn ystod achos troseddol | Cafwyd P yn euog o drosedd. |

| | | |
|---|---|---|
| cyflwyno'r DAPN (ac eithrio Suliau a Gwyliau Banc Cyhoeddus)<br><br>Rhaid rhoi rhybudd am wrandawiad y cais i T a thybir ei fod wedi ei roi os gadawyd yn y cyfeiriad a roddwyd gan T. Os na roddodd T gyfeiriad yna rhaid i'r llys fod yn fodlon y gwnaed ymdrechion rhesymol i gyflwyno'r rhybudd. | neu na fydd canlyniad achos troseddol yn rhoi digon o warchodaeth.<br><br>Gwneud cais gan yr heddlu heb neu gyda rhybudd i T, trwy osod cwyn yn y llys ynadon a gwneud cais am wŷs. Os gwnaed heb rybudd, rhaid rhoi tystiolaeth i'r llys ynglŷn â pham y gwnaed cais heb rybudd am DAPO. | Rhybudd ar y diffynnydd a'r llys ymlaen llaw gyda gorchymyn drafft.<br><br>Rhaid i'r heddlu weithio'n agos gyda GEG ar y cais a'r argymhellion. |

| Cais DAPO |
|---|
| **Amodau** - Bu P yn cam-drin neu yn bygwth cam-drin D a bod DAPO yn **<u>angenrheidiol a chymesur</u>** er mwyn gwarchod D.<br>**Ystyried** - Lles unrhyw un dan 18, barn pawb dan sylw (nid oes angen cydsyniad D), sylwadau gan T, cofnodion perthnasol yr heddlu i ganfod a yw T eisoes yn destun gorchymyn llys arall neu waharddeb. Ymwneud ag asiantaethau eraill ynghylch yr amodau, gan gynnwys gwasanaethau CD. Ystyried nodweddion gwarchodedig.<br>**Cais** – Ystyried pa ofynion fyddai fwyaf effeithiol i ddiogelu'r person a warchodir ac i ymdrin ag ymddygiad camdriniaethol T a theilwrio'r cais yn unol â hynny.<br>• Nodi hyd y gorchymyn (dim isafswm nac uchafswm)<br>• Nodi hyd yr amodau<br>**Enghreifftiau o amodau y gellid eu cynnwys, ond nid y rhain yn unig:**<br>• Gwahardd cysylltu â D<br>• Gwahardd rhag dod o fewn pellter penodol i eiddo (e.e., cartref D, man gwaith, ysgol plentyn, etc.)<br>• Gwahardd o eiddo.<br>• Gofynion cadarnhaol (rhaglen troseddwyr, rhaglen cam-ddefnyddio sylweddau, rhaglen iechyd meddwl). Os ystyrir PR, ymwneud â sefydliadau brysbennu i asesu fel rhan o'r cais.<br>• Monitro electronig (cyrffiw neu barth eithrio) |

| Caniatáu DAPO | Gwrthod DAPO |
|---|---|
| • Heddlu i roi DAPO i T.<br>• Cysylltu â D i roi gwybod am y penderfyniad.<br>• Hysbysu D am waharddiadau a hyd y DAPO a chamau i'w cymryd os torrir y gorchymyn.<br>• Adolygu Asesiad Risg i D ac unigolion eraill.<br>• Hysbysu'r adrannau a'r asiantaethau perthnasol fod DAPO wedi ei wneud. | Cysylltu â'r person sydd yn bersonol gysylltiedig i'w hysbysu am y penderfyniad<br><br>Ystyried cyfeirio ar wasanaeth CD<br><br>Cyfoesi asesiad risg DASH/DARA – sicrhau bod mesurau diogelu yn ddigonol. |

| | |
|---|---|
| | Hysbysu'r adrannau a'r asiantaethau perthnasol.<br><br>Ymwneud ag asiantaethau eraill, cyfeirio posib i MARAC a chynllunio diogelwch.<br><br>Tynnu marciwr DAPN o'r PNC. |

| | |
|---|---|
| **Ymwneud amlasiantaethol**<br>• Bydd IDVA yn rhoi cefnogaeth annibynnol a chyfarwyddyd yn uniongyrchol i'r dioddefwr.<br>• Efallai y bydd angen gweithredu brys cyn MARAC yn dibynnu ar yr amserlen<br>• Asiantaethau MARAC i nodi a gosod mesurau/camau diogelwch i gefnogi a diogelu'r D ac unrhyw blant. | **Torri DAPO**<br><br>**Angen gweithredu BRYS**<br><br>• Cysylltu â T ac ymchwilio i'r torri<br>• Gall swyddog arestio T.<br>• Gall llys gadw yn y ddalfa neu ar fechniaeth<br>• Hysbysu'r D am y torri.<br>• Hysbysu adrannau ac asiantaethau perthnasol am y torri<br>• Casglu tystiolaeth/paratoi papurau llys<br>• Siarad â GEG am benderfyniad ynghylch cyhuddo. |

| |
|---|
| **DAPO yn dod i ben**<br><br>• Dal i ganoli ar y dioddefwr, ystyried anghenion, gofynion a diogelwch D.<br>• Ystyried a oes angen cais i ymestyn y DAPO<br>• Gofalu bod yr holl wybodaeth yn cael ei gofnodi a bod modd ei adfer ar PND/systemau'r llu lleol. |